



Cynllun Rheoli Cychfan Cyngor Sir Ddinbych

2021-22





Cyflwyniad

Mae twristiaeth yn dod â £552 miliwn (STEAM 2019) i economi Sir Ddinbych, ac yn cefnogi 6,470 o swyddi. Mae'n amlwg bod pandemig covid 19 wedi cael effaith difrifol ar economi'r sir gyda thwristiaeth yn un o'r sectorau a effeithiwyd fwyaf. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan 2021-22 yn cydnabod y gall Cyngor Sir Ddinbych chwarae rôl allweddol, gyda'i nifer o bartneriaid, i gefnogi'r diwydiant twristiaeth, gweithio gyda'r diwydiant a'i alluogi i adsefydlu dros y blynyddoedd nesaf.

Strategaeth Dwristiaeth Sir Ddinbych 2019-22

Y tri phrif ganlyniad sydd arnom ni eisiau eu cyflawni ar gyfer twristiaeth yn Sir Ddinbych yw:

- Mae pobl yn ymweld â Sir Ddinbych drwy'r flwyddyn
- Mae pobl yn aros yn Sir Ddinbych yn hirach
- Mae pobl yn gwario mwy o arian yn y Sir

Sut ydym yn trefnu ein hunain ac yn gweithio gydag eraill

Gan fod y gweithgareddau yn berthnasol i sawl gwasanaeth o fewn y Cyngor, byddwn yn darparu'r Strategaeth hon drwy drefnu ein gwaith yn y dulliau canlynol, a chanolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy gydweithio ac effeithlonrwydd.

Rheoli Asedau

Rheoli a buddsoddi yn ein hasedau mewn modd cynaliadwy er mwyn eu gwneud yn hygyrch ac yn ddeniadol i ymwelwyr, mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol. O fewn y maes hwn byddwn hefyd yn arwain y prosiect Cynllun Corfforaethol i 'Wella isadeiledd i'w gwneud yn haws i gynnal digwyddiadau'.

Rheoli Cyrchfan

Defnyddio adnoddau'r Cyngor i wneud profiadau ymwelwyr yn y Sir yn rhai pleserus. Mae hyn yn cynnwys rheoli ymwelwyr a thrigolion.

Datblygu Busnes

Gweithio gyda busnesau, ac ar eu rhan, a chefnogi mewnfuddsoddi i helpu i gyflawni ein huchelgais ar gyfer y sir.

Marchnata Cyrchfan

Datblygu a darparu cynnyrch marchnata i'n helpu i gyflawni'r canlyniadau dymunol.



Mae eitemau coch o'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dwristiaeth wedi'u cynnwys i roi cyd-destun.

Cynllun Gweithredu Strategaeth Dwristiaeth Sir Ddinbych:

TSAP303a1

Cydlynu Rheoli Cyrchfan (2021)

Llinell Amser

Ar gyfer dibenion y ddogfen hon, gwneir rhagdybiaeth y bydd ymwelwyr yn dychwelyd yn uniongyrchol i Sir Ddinbych yng Ngwanwyn 2021.

Dylid nodi, wrth i ni symud o'r gaeaf i'r gwanwyn, mae'n anochel y bydd pwysau yn tyfu i ddefnyddio ein safleoedd awyr agored mewn lleoliadau cefn gwlad yn yr AHNE a STB, tra bydd ymweliadau i'n hardaloedd arfordir yn debygol o gynyddu hefyd.

Wrth ystyried hyn, yn ogystal â champau gweithredu eang, mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn canolbwyntio ar weithgaredd penodol y dylai ddigwydd yn seiliedig ar ddychwelyd yn raddol wedi'r cyfnod clo. Er mwyn sicrhau ein bod yn barod i ymdopi â llacio'r cyfyngiadau, dechreuom gynllunio paratoadau yn Chwefror 2021.

Mae tair thema i Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych:

- Ymgysylltiad
- Isadeiledd
- Marchnata a Chyfathrebu

Bydd yn bwysig monitro effeithiolrwydd y camau cytunedig, felly bydd diweddariadau misol yn cael eu casglu gan yr Arweinydd Tîm Twristiaeth a'u rhannu gyda'r grŵp Strategaeth Dwristiaeth Sir Ddinbych i'w hadolygu.



Ymgysylltiad

Mae'r Awdurdod Lleol wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio dros y 12 mis diwethaf. Mae'n bwysig ein bod ni oll yn parhau i wneud hyn gan osgoi mabwysiadu meddylfryd byncher wrth i wirioneddau'r cyfnod clo yn 2021 dreiddio i mewn.

Trwy gydol y pandemig, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dangos arweinyddiaeth ac wedi tanlinellu ei bwysigrwydd i drigolion a busnesau fel ei gilydd.

CAMAU GWEITHREDU

1. Busnesau yn Cyfrannu

- a. Annog busnesau twristiaeth Sir Ddinbych – trwy Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych – i gyfrannu tuag at ddatblygu syniadau a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan.
- b. Cefnogi ymwybyddiaeth busnesau o gynlluniau newydd a newidiadau i reoliadau neu gyngor ynglŷn â Covid-19, i roi'r cyfle gorau posibl iddynt gynllunio.
- c. Ehangu'r Grŵp Adfer Busnes presennol i sicrhau bod cynrychiolaeth o holl Wasanaethau. Defnyddio'r grŵp hwn fel canolbwynt ar gyfer Rheoli Cyrchfan fel bod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

- d. Sicrhau bod y Sector Twristiaeth yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar agor a pha gyfleusterau sydd ar gael.

2. Ymgysylltu â'r Gymuned

- a. Ymgysylltu â Chynghorau Tref a Dinas i ddeall eu cynlluniau uniongyrchol ar gyfer newidiadau a gwelliannau yn ystod 2021 (mae hyn yn cynnwys eu gweithgareddau cynlluniedig o dan Gynllun Grant Ymateb Covid-19 Canolfannau Trefi neu gynlluniau eraill).

3. Ymgysylltu â Thrigolion ac Ymwelwyr

- a. Hyrwyddo negeseuon gan CSDd o ran diogelwch cyhoeddus, newidiadau i reolau cyfnod clo ond hefyd ein cynlluniau i agor y sir i ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych ac unrhyw gynlluniau ymgysylltu priodol eraill.

Camau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dwristiaeth presennol:

TSAP105a1 Cryfhau gwaith partneriaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru
TSAP203a2 Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych (2021)



Isadeiledd

Mae gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid rôl allweddol i chwarae yn y ffordd mae ymwelwyr a thrigolion yn profi'r sir. Mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod ein safleoedd a'n cyfleusterau yn ddiogel ac yn addas i drigolion ac ymwelwyr yn ystod 2021.

Safleoedd i ymwelwyr, gan gynnwys Treftadaeth a Chefn Gwlad, AHNE a Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Er bod gan y safleoedd hyn wahanol bwysau a blaenoriaethau, bydd yn bwysig ein bod yn deall cynlluniau ar draws y sefydliad. Mae'n bwysig nodi bod lefelau rhybudd ar gyfer safleoedd ymwelwyr yn wahanol i wasanaethau eraill CSDd, felly bydd yn bwysig cynllunio'n effeithiol i allu diwallu'r galw.

"Yn seiliedig ar brofiad ein Tîm Ceidwaid y rheng flaen y llynedd – lle roeddem wedi ein llethu gan nifer yr ymwelwyr yn ein safleoedd

craidd mwyafrif yr amser – mae angen gwirioneddol i gynyddu adnoddau staff yn yr ardaloedd hyn. Trwy gydol cyfnod yr Haf, Hydref a Gaeaf, roedd rhaid i ni ddyblu ein staff gyda staff wrth gefn ar benwythnosau a chynnodau yn ystod yr wythnos. Nid yn unig i ymdopi gyda'r angen i ddarparu presenoldeb ar y safle ar benwythnosau a gwyliau – ond mae cynnydd mewn ymwelwyr wedi golygu cynnydd sylweddol yn yr angen am waith cynnal a chadw, iechyd a diogelwch ac arwyddion, sydd wedi rhoi pwysau ar ein timau yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn anghynaliadwy heb gynyddu staff y rheng flaen."
Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE a Rheolwr Gwasanaeth Ceidwaid

Bydd rhaid rhannu ein cynlluniau yn agos ar draws yr awdurdod er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ac eglurder y neges. Mae'n bwysig i holl wasanaethau'r cyngor ddeall yr effaith posibl ar brofiad ymwelwyr.

CAMAU GWEITHREDU

4. Ledled y sir

- a. Agor safleoedd CSDd (gan gynnwys toiledau cyhoeddus, meysydd parcio, Canolfannau Croeso) ac atyniadau (gan gynnwys SC2, Loggerheads ac ati) yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- b. Dylunio a gweithredu 'gwiriadau galw heibio' rheolaidd er mwyn canfod problemau o amgylch canol trefi, safleoedd ymwelwyr, atyniadau, toiledau cyhoeddus, meysydd parcio ac ati. Cytuno ar brosesau a rolau gan gynnwys rheolwyr, aelodau lleol, partneriaid twristiaeth a swyddogion.
- c. Cynllunio yn effeithiol ac yn gydweithredol i ganfod lefelau rhybudd/pwyntiau o bwysau ar draws y Sir a gwasanaethau i reoli'r ymchwydd yn y galw mewn ffordd gadarnhaol.
- d. Canfod lle mae angen adnoddau ychwanegol i reoli profiad ymwelwyr yn effeithiol.
- e. Sefydlu system ar gyfer cynnal a thynnu arwyddion sy'n ymwneud â covid, arwyddion cyffredinol, sticeri, marciau ar y ffordd a phalmentydd.

5. Ardaloedd Gwledig Sir Ddinbych

- a. Ymgynghori â Chynghorwyr CSDd ar bwysau gwledig.

- b. Cynnal arolygon boddhad rheolaidd.
- c. Cofnodi nifer yr ymwelwyr.
- d. Cynyddu cwmpas y Ceidwaid.

6. Trefi

- a. Gweithredu, tynnu'n ôl ac adolygu gwersi a ddysgwyd (o ran rheoli cyrchfan) o Gynlluniau Teithio Llesol Covid-19 (Rhuthun, y Rhyl a Llangollen).
- b. Adolygu effaith (o ran rheoli cyrchfan) o gynlluniau grant eraill LIC (Trawsnewid Trefi):
 - i. Arwyddion cyfeirio/cyfleusterau eraill yn Rhuthun
 - ii. Newidiadau i'r ardal o amgylch Neuadd y Dref y Rhyl
- c. Sicrhau bod dull Cynllun Rheoli Cyrchfan yn addasu mewn ymateb i gynlluniau sy'n cael eu gweithredu ar draws y Sir, gan gynnwys:
 - i. Cynlluniau Isadeiledd Gwyrdd yn ac o amgylch canol tref y Rhyl
 - ii. Llangollen 2020
 - iii. Datblygiad Marchnad y Frenhines
 - iv. Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy
 - v. Felodrom Rhuthun
 - vi. Yr Hen Lys Rhuthun

Cynllun Gweithredu Strategaeth Dwristiaeth: TSAP201a2 Cryfhau darparu gwybodaeth am AHNE/WHS/Rhyl/SC2/Llangollen/Y Dyffryn mewn porthfeydd allweddol a safleoedd strategol eraill (2021)

Marchnata a Chyfathrebu

Mae busnesau twristiaeth eisiau gweld cysylltiadau cyhoeddus a marchnata i hyrwyddo Gogledd Ddwyrain Cymru ar ôl y cyfnod clo.

Arolwg busnes CRTG Mawrth 2021

Ynghyd â marchnata a chyfathrebu dros ardal eang gan hyrwyddo rheoliadau a chanllawiau'r Llywodraeth, bydd angen paratoi negeseuon tymor byr. Mae gennym strwythur wedi'i dargedu yn ei le i gyhoeddi negeseuon yn rhoi gwybod i bobl pan fydd meysydd parcio AHNE wedi cau (er enghraifft), ond gall hyn gael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod negeseuon eglur yn cael eu lledaenu ar draws y sefydliad.

Yn hytrach na hyrwyddo ardaloedd gwledig sydd fwyaf diamddiffyn o ran niwed twristiaeth (e.e. Loggerheads, Rhaeadr y Bedol), byddwn yn blaenoriaethu negeseuon ymddygiad – parcio, sbwriel, cŵn ac ati – gan gefnogi trigolion ac ymwelwyr i 'fentro'n gall'.

CAMAU GWEITHREDU

7. **Neges Allweddol:** Mae Sir Ddinbych yn leoliad diogel i ymweld ac yn ddiogel ar gyfer trigolion hefyd.
8. Hyrwyddo negeseuon am ymweliadau cyfrifol sy'n cyd-fynd ag Addo/Promise (Ymgyrch Croeso Cymru).
9. Cynllunio a darparu Ymgyrch Cod y Sir newydd.
10. Annog marchnata sy'n benodol i atyniad i ddod a buddion ehangach i gyrchfannau.
11. Annog pobl i ddefnyddio safleoedd ar wahân i'r mannau poblogaidd megis Loggerheads (lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd), er mwyn osgoi gorlenwi a lledaenu.

Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Dwristiaeth:

TSAP111a2 Hyrwyddo AHNE a STB fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn (2020) yn ogystal â'r Rhyl/SC2/Prestatyn/Llangollen/y Dyffryn



Camau Gweithredu gyda'r Gwasanaethau sy'n Gyfrifol

(Gweithredol)

Llywodraethu: Diweddariadau misol ar weithrediadau ac eithriadau i'w casglu gan yr Arweinydd Tîm Twristiaeth a'i rannu gyda'r Grŵp Strategaeth Dwristiaeth.

C&C – Gwasanaeth Cymunedau a Chwsmeriaid

PPP&C – Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad

HES – Priffyrdd a'r Amgylchedd

DLL – Hamdden Sir Ddinbych

Ymgysylltiad

1. Ymgysylltu â Busnesau

- Annog busnesau twristiaeth Sir Ddinbych – trwy Bartneriaeth Cyrchfan Sir Ddinbych – i gyfrannu tuag at ddatblygu syniadau a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. (C&C)
- Cefnogi ymwybyddiaeth busnesau o gynlluniau newydd a newidiadau i reoliadau neu gyngor ynglŷn â covid 19, i roi'r cyfle gorau posibl iddynt gynllunio. (C&C)

- Ehangu'r Grŵp Adfer Busnes presennol i sicrhau bod cynrychiolaeth o holl Wasanaethau. Defnyddio'r grŵp hwn fel canolbwynt ar gyfer Rheoli Cyrchfan fel bod yr Awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. (PPP&C)
- Sicrhau bod y Sector Twristiaeth yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar agor a pha gyfleusterau sydd ar gael. (C&C)

2. Ymgysylltu â'r Gymuned

- Ymgysylltu â Chynghorau Tref a Dinas i ddeall eu cynlluniau uniongyrchol ar gyfer newidiadau a gwelliannau yn ystod 2021 (mae hyn yn cynnwys eu gweithgareddau cynlluniedig o dan Gynllun Grant Ymateb Covid 19 Canolfannau Trefi neu gynlluniau eraill). (C&C)

3. Ymgysylltu â Thrigolion ac Ymwelwyr

- Hyrwyddo negeseuon gan CSDd o ran diogelwch cyhoeddus, newidiadau i reolau cyfnod clo ond hefyd ein cynlluniau i agor y sir i ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth Sir Ddinbych ac unrhyw gynlluniau ymgysylltu priodol eraill. (C&C)



Isadeiledd

4. Ledled y sir

- a. Agor safleoedd CSDd (gan gynnwys toiledau cyhoeddus, meysydd parcio, Canolfannau Croeso) ac atyniadau (gan gynnwys SC2, Loggerheads ac ati) yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. (PPP&C; HES; C&C, DLL)
- b. Dylunio a gweithredu 'gwiriadau galw heibio' rheolaidd er mwyn canfod problemau o amgylch canol trefi, safleoedd ymwelwyr, atyniadau, toiledau cyhoeddus, meysydd parcio ac ati. Cytuno ar brosesau a rolau gan gynnwys rheolwyr, aelodau lleol, partneriaid twristiaeth a swyddogion. (PPP&C; HES; DLL)
- c. Cynllunio yn effeithiol ac yn gydweithredol i ganfod lefelau rhybudd/pwyntiau o bwysau ar draws y Sir a gwasanaethau i reoli'r ymchwydd yn y galw mewn ffordd gadarnhaol. (PP&C; HES)
- d. Canfod lle mae angen adnoddau ychwanegol i reoli profiad ymwelwyr yn effeithiol. (PPP&C; HES; C&C)
- e. Sefydlu system ar gyfer cynnal a thynnu arwyddion sy'n ymwneud â covid, arwyddion cyffredinol, sticeri, marciau ar y ffordd a phalmentydd. (PP&C; HES)

5. Ardaloedd Gwledig Sir Ddinbych

- a. Ymgynghori â Chynghorwyr CSDd ar bwysau gwledig (PPP&C)
- b. Cynnal arolygon boddhad rheolaidd (PPP&C)
- c. Cofnodi nifer yr ymwelwyr (PPP&C)
- d. Cynyddu cwmbras y Ceidwaid (PPP&C)

6. Trefi

- a. Gweithredu, tynnu'n ôl ac adolygu gwersi a ddysgwyd (o ran rheoli cyrchfan) o Gynlluniau Teithio Llesol Covid-19 (Rhuthun, y Rhyl a Llangollen). (PPP&C)
- b. Adolygu effaith (o ran rheoli cyrchfan) o gynlluniau grant eraill LIC (Trawsnewid Trefi) (C&C)
 - i. Arwyddion cyfeirio/cyfleusterau eraill yn Rhuthun
 - ii. Newidiadau i'r ardal o amgylch Neuadd y Dref y Rhyl
- c. Sicrhau bod dull Cynllun Rheoli Cyrchfan yn addasu mewn ymateb i gynlluniau sy'n cael eu gweithredu ar draws y Sir, gan gynnwys: (C&C)
 - i. Cynlluniau Isadeiledd Gwyrdd yn ac o amgylch canol tref y Rhyl
 - ii. Llangollen 2020
 - iii. Datblygiad Marchnad y Frenhines

- iv. Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy
- v. Felodrom Rhuthun
- vi. Yr Hen Lys Rhuthun

Marchnata a Chyfathrebu

- 7. **Neges Allweddol:** Mae Sir Ddinbych yn leoliad diogel i ymweld ac yn ddiogel ar gyfer trigolion hefyd. (C&C)
 - 8. **Hyrwyddo negeseuon am ymweliadau cyfrifol sy'n cyd-fynd ag Addo/Promise (Ymgyrch Croeso Cymru)**
<https://www.croeso.cymru/cy/addo>
(C&C)
 - 9. **Cynllunio a darparu Ymgyrch Cod y Sir newydd.** (PPP&C)
 - 10. **Annog marchnata sy'n benodol i atyniad i ddod a buddion ehangach i gyrchfannau.** (DLL)
 - 11. **Annog pobl i ddefnyddio safleoedd ar wahân i'r mannau poblogaidd megis Loggerheads (lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd), er mwyn osgoi gorlenwi a**
-





[cyngorsirddinbych](#)



[CyngorSDd](#)



[cyngorsdd_denbighshirecc](#)

twristiaeth@sirddinbych.gov.uk

www.sirddinbych.gov.uk